Crynodeb gweithredol
Profiad bywyd pobl anabl yn y DU: Adolygiad o dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr adolygiad systematig o dystiolaeth profiad bywyd a gomisiynwyd gan Uned Anabledd Swyddfa'r Cabinet. Cynhaliwyd yr adolygiad gan y Ganolfan Astudiaethau Anabledd ym Mhrifysgol Leeds a Hawliau Anabledd y DU. Ei nod oedd sefydlu tystiolaeth ar brofiad bywyd pobl anabl yn y DU a gyhoeddwyd rhwng 2010 a 2021. Roedd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil canlynol:

Pa dystiolaeth sydd ar gael am y rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pobl anabl yn y DU, yn deillio'n benodol o'u gwybodaeth a'u profiad uniongyrchol (profiad bywyd), mewn meysydd o bryder polisi cyfredol?

Methodoleg

Roedd gan yr adolygiad tystiolaeth 3 cham:

1. Nodwyd tua 15,000 o ffynonellau posibl gan ddefnyddio chwiliadau testun systematig o gronfeydd data (ymchwil academaidd yn bennaf) a llenyddiaeth lwyd. Roedd y chwiliadau yn canolbwyntio ar ymchwil ddiweddar dan arweiniad defnyddwyr.

1. Dewiswyd tua 1,500 o ffynonellau yn seiliedig ar feini prawf penodol. Yna cawsant eu didoli yn 13 thema sy'n berthnasol i bolisi.

2. Mapiwyd y sylfaen dystiolaeth yn thematig a chrëwyd yr allbynnau.

Ar gyfer pob thema, rydym yn egluro cyd-destun a pherthnasedd erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). Yna rydym yn dangos yr amrediad o dystiolaeth o brofiad bywyd, ag enghreifftiau perthnasol ac fel sail ar gyfer dadansoddiad ychwanegol o ganfyddiadau'r ymchwil.

Crynodeb o ganfyddiadau yn ôl thema

1. Cyfranogiad cymunedol a chymdeithasol

Mae pobl anabl yn aml yn wynebu rhwystrau rhag cynhwysiant cymdeithasol sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Mae tystiolaeth yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, economeg a chymdeithas sifil.

2. Hygyrchedd

Mae rhwystrau parhaus mewn amgylcheddau ffisegol a digidol, gan gynnwys cyfathrebu a thrafnidiaeth. Mae pobl anabl yn dweud nad yw llawer o leoedd wedi'u cynllunio na'u cefnogi'n dda o hyd, er gwaethaf rhai gwelliannau.

3. Byw'n annibynnol a gofal cymdeithasol

Mae profiadau o ddewis a rheoli gwasanaethau cymorth personol yn hanfodol ar gyfer byw'n annibynnol. Mae'r heriau'n cynnwys trosglwyddo o ofal sefydliadol a llywio trwy drefniadau cymdeithasol cymhleth.

4. Gofal iechyd

Mae rhai ffynonellau'n trafod rhwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd. Mae'r rhain yn amlygu materion systemig gan gynnwys:

- gwahaniaethu
- diffyg gwybodaeth
- addasiadau annigonol o fewn lleoliadau gofal iechyd

5. Cyfiawnder

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl anabl yn aml yn wynebu trais, camfanteisio a gwahaniaethu. Maent hefyd yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at gyfiawnder. Mae'r rhain yn amlygu'r angen am welliannau polisi i ddiogelu eu hawliau.

6. Addysg

Mae heriau mewn lleoliadau addysg prif ffrwd yn cynnwys cymorth ac adnoddau annigonol ar gyfer myfyrwyr anabl. Mae angen dulliau wedi'u teilwra i sicrhau bod arferion addysgol yn gynhwysol.

7. Cyflogaeth

Mae'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn cyflogaeth yn cynnwys stigma, gwahaniaethu a diffyg addasiadau rhesymol. Mae'r canfyddiadau yn pwysleisio pwysigrwydd arferion gweithle cynhwysol a systemau cymorth.

8. Incwm

Mae gan bobl anabl risg uwch o dlodi ac ansefydlogrwydd ariannol – yn enwedig trwy eu rhyngweithio â'r system les. Mae rhwystrau gweinyddol rhag cael mynediad at gymorth ariannol hefyd yn effeithio ar eu hannibyniaeth economaidd.

9 Tai

Mae rhwystrau parhaus ynghylch tai hygyrch yn cynnwys:

- prinder eiddo addas
- diffyg cymorth ar gyfer addasiadau

Mae profiadau o ddigartrefedd ymhlith pobl anabl yn amlygu bylchau difrifol mewn polisïau a gwasanaethau.

10. Trafnidiaeth

Mae llawer o bobl anabl yn nodi problemau hygyrchedd â thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r rhain yn effeithio ar eu symudedd a'u hannibyniaeth. Mae angen polisïau gwell i sicrhau mynediad cyfartal at drafnidiaeth.

11. Hamdden

Mae rhwystrau corfforol a stigma cymdeithasol yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Mae angen mwy o gyfleoedd hamdden cynhwysol sy'n darparu ar gyfer pob math o anabledd.

12. Teulu a'r maes preifat

Mae perthnasoedd a dynameg teuluol yn cael eu heffeithio gan amrywiaeth o rwystrau. Mae heriau'n gysylltiedig â bod yn rhiant, perthnasoedd rhamantus a chyfeillgarwch. Mae llawer o'r rhain oherwydd agweddau cymdeithasol a chymorth annigonol.

13. Agweddau

Mae agweddau cymdeithasol tuag at bobl anabl yn aml yn cynnwys stigma a gwahaniaethu. Mae'r adroddiad yn amlygu'r angen am fentrau codi ymwybyddiaeth er mwyn:

- annog cymdeithas fwy cynhwysol
- gwrthwynebu stereoteipiau negyddol

Mae'r adolygiad tystiolaeth hwn yn dangos yr amrediad eang o rwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn y DU mewn gwahanol feysydd polisi. Mae'n amlygu'r angen am ymyriadau wedi'u targedu a gwelliannau polisi sy'n galluogi cynhwysiant ac yn gwella ansawdd eu bywyd.